

## HOLLAND (TEULUOEDD):

Arddelwyd y cyfenw hwn gan gynifer o deuluoedd (bawb ond un yng Ngogledd Cymru) fel mai hwylus efallai fydd rhoi crynodeb ohonynt, serch mai ychydig iawn o'u haelodau unigol a hawlia sylw. O Lancashire y tarddodd pob un ohonynt, ond bellach nid yw mor sicr ag y tybid gynt pa beth yn union yw'r cyswllt rhwng y ddwy gainc fawr Gymreig (anhoffus, meddai [Thomas Pennant](#)) a'i gilydd.

(A.)Y gainc sicraf ei tharddiad yw Holandiaid (1) Conwy. Yn ôl prif achyddwr yr Holandiaid, Bernard Holland, yn ei lyfr *The Hollands of Lancashire* (gweler hefyd A. S. Vaughan Thomas yn y gyfrol *Hugh Holland* a'i atodiadau), disgyn hon yn ddiameduol o dylwyth pendefigaidd Matthew de Holland (yn amser y brenin John) o Upholland, Swydd Gaerhirfryn. Daeth PETER HOLLAND, gwas i Harri IV, i Gonwy, a daeth y teulu'n berchenogion y castell a rhan fawr o'r dref, heblaw tiroedd y tu allan i'r dref (gweler [W. B. Lowe](#), *The Heart of Northern Wales*, i, 342-5; [J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 341; ac *Archæologia Cambrensis*, 1866, ar gyfer 183). Gyda meibion HUGH GWYN HOLLAND, a briododd â Jane Conway o Fodrhyddan ac a fu farw 1584, ymranna'r gainc hon yn ddwy: (a) disgynyddion y mab hynaf, EDWARD HOLLAND, h.y. parhad prif linach Holandiaid Conwy, a ddarfu fwy nag unwaith mewn aeresau, ond bod meibion neu yrion y rheini wedi ailgydio yn y cyfenw 'Holland.' Yn y diwedd, trwy briodas yn 1738, aeth eu meddiannau i ddwylo Williamsiaid Pwll-y-crochan (Colwyn), ac wedyn yn yr un modd (1821) i deulu o'r enw Erskine o Sgotland. Eithr (b) nid gartref yng Nghonwy yr arhosodd meibion iau Hugh Gwyn Holland. Diddorol yw'r pedwerydd mab, HENRY HOLLAND (bu farw 1603), a aeth i Goleg S. Ioan yng Nghaergrawnt ond a raddiodd (1580) o Goleg Magdalene, clergwr (Venn, *Alumni Cantabrigienses*, *D.N.B.*). Cyhoeddodd hwn, 1590, *A Treatise on Witchcraft*, a gyflwynodd i [Robert Devereux, Iarll Essex](#), a thri neu bedwar o lyfrau eraill sy'n dangos mai Calfin - Piwritan Anglicanaidd - oedd ef, megis yn wir yr awgryma ei gyswllt â'r [Iarll Essex](#). Pwysicach i Gymru oedd ei frawd hyn (y trydydd mab), [ROBERT HOLLAND](#) (1557 - 1622), gan iddo yn 1591 ymsefydlu yn Nyfed a chychwyn llinach Holandiaid (2) Walwyn's Castle (i'r de-orllewin o Hwlfordd), a ddaliodd yno hyd ychydig cyn canol y 18fed ganrif; clergwyr oedd nifer ohonynt; y mae ysgrifau ar [Robert Holland](#) ei hunan ac ar [William Holland](#). Yn Lloegr y cartrefodd y gainc hon wedyn; gellir enwi un ohonynt, Syr Thomas Erskine Holland (1835 - 1926), athro cyfraith gydwladol (1874-1910) ym Mhrifysgol Rhydychen, ac awdur llyfr hyglog ar egwyddorion cyfraith - priodol yw ei gynnwys yma, gan iddo gyfrannu dwy ysgrif ar Holandiaid Cymru i *Archæologia Cambrensis*, 1866, 183-5, a 1867, 164-70, a sgrifennu ar [Robert Holland](#) yn y *D.N.B.*

(B.) Y mae ansicrwydd ynghylch tarddiad yr ail glwm o Holandiaid, yng Ngwynedd. Credai pawb gynt (gweler *Archæologia Cambrensis*, 1867, a [W. B. Lowe](#), op. cit., i, 345-50; ii, 287-8) eu bod o'r un cyff â'r lleill, ond gwrthyd Bernard Holland gydnabod perthynas, neu o leiaf berthynas gyfreithlon. Ymddengys nad oes gennym dir cadarn i sefyll arno cyn dyfod ar ryw ROGER (neu HOESGYN) Holland, sut bynnag y daeth hwnnw i Gymru. Mab iddo ef oedd ROBIN HOLLAND, a oedd yn bleidiol i achos [Owain Glyn Ddr](#). Cafodd Robin ddau fab y bydd a fynnom a hwy:

### (a) HOWEL HOLLAND

o'r (3) PENNANT (Pennant Ereithlyn, Eglwys-bach, sir Ddinbych; [J. E. Griffiths](#), op. cit., 24). Mab i hwn, John Holland (siryf Môn yn 1461), a briododd ag Elinor ferch Ithel ap Hywel o'r Berw yn Llanfihangel Ysgeifiog (Môn), ac a ddaeth felly'n hynaf [Holandiaid y \(4\) Berw](#) ([J. E. Griffiths](#), op. cit., 110) - y mae ysgrif arnynt isod;

### (b) David Holland y Cyntaf

([J. E. Griffiths](#), op. cit., 259). Yr oedd ei fab hynaf ef, GRIFFITH HOLLAND, yn byw yn (5) FAERDREF, Llansantsiôr, sir Ddinbych, a aeth wedyn i'w fab hynaf DAVID HOLLAND yr Ail - ond y mae ei fab iau, LLYWELYN HOLLAND, hefyd yn hawlio ein sylw, oblegid yr oedd ei yr ef, ROBERT HOLLAND, yn byw yn nhref (6) DENBIGH, a daeth yn dad i'r llenor [Hugh Holland](#) (1569 - 1633). I ddychwelyd at David Holland yr Ail : treiglodd y Faerdref i'w fab hynaf JOHN HOLLAND, a mab i hwnnw, PYRS HOLLAND (bu farw 1552), a chwanegodd at y stad drwy briodas ag aeres (7) Cinnel - aeth Cinnel, trwy briodas gor-or- yres y Pys hwn, i ddwylo [John Carter \(1619 - 1676\)](#), un o swyddogion Oliver Cromwell. Meibion hefyd i Byrs Holland o Ginnel oedd JOHN HOLLAND, tad WILLIAM HOLLAND o'r (8) Wigfair ('Wickwar'), Llanellwy ([J. E. Griffiths](#), op. cit., 102, a Peter Roberts, *Y Cwta Cyfarwydd*, mynegai); a HUMPHERY HOLLAND (bu farw 1612) a briododd ag aeres (9) TEIRDAN, Llanellian-yn-Rhos (yr un cyfeiriadau). Darfu Holandiaid Wigfair (yn gynnar yn y 18fed ganrif) a Holandiaid Teirdan (1824) mewn aeresau. Yn ôl unwaith eto at David Holland yr Ail : mab arall iddo oedd WILLIAM HOLLAND, a briododd â Chatrin, ferch ac aeres [Thomas Davies](#), esgob Llanellwy, ac a gychwynnodd linach Holandiaid (10) HENDRE-FAWR, Abergele; yn 1643 priodwyd aeres yr Holandiaid hyn (ni bu farw cyn 1705) - gweler [J. E. Griffiths](#), op. cit., 259. Cafwyd amryw siryfion o'r clwm o deuluoedd a rifwyd 5-10, a chanodd beirdd glodydd amryw ohonynt, ond y mae mudandod llwyr ac unfryd yr hen eiriaduron bywgraffyddol Gymreig amdanynt (ac eithrio [Hugh Holland](#) y llenor) yn awgrymog; ac ni cheisiwyd yma ond rhagflaenu'r chwilyfrydedd a gyfyd o weld y cyfenw hwn mor fynych mewn hen lyfrau.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

# Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733175](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733175)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

